

Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg Pontybrenin yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi pwyslais cadarn ar les a chynnydd disgyblion. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a synhwyrol sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu difyr mewn amgylcheddau dysgu diddorol a gofalgwr. Mae hyn yn cyfrannu'n bwrpasol at ymddygiad cadarnhaol a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion. Mae'r weledigaeth fwriadus hon, sy'n cynnwys cyfraniadau buddiol gan y staff a'r gymuned ehangach, yn cefnogi arferion gwella'r ysgol yn effeithiol.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n dda i sicrhau darpariaeth gwricwlaidd eang a chytbwys. Maent yn fodolau iaith cywrair ac yn canolbwyntio'n effeithiol ar hyrwyddo gofal a dysgu'r disgyblion. Mae'r staff yn cydweithio'n ddiwyd â rhieni ac asiantaethau allanol ac maent yn adnabod anghenion disgyblion yn dda, sy'n cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Ar y cyfan, mae rhediad y sesiynau addysgu yn cyfatebu'n dda i ddysgu disgyblion ac mae adborth yr athrawon i ddisgyblion i wella'u dysgu yn addas. Er hyn, nid yw ansawdd addysgu'r athrawon a'r her maent yn ei rhoi i ddisgyblion yn gyson ar draws yr ysgol. Ar adegau, mae tueddiad gan staff i or-arwain y dysgu sy'n cyfyngu ar allu disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Mae hyn yn arwain at gynnydd da ym medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion tra'n ystyried eu mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd ymestynnol i gymhwyso'u medrau ar lefelau dysgu priodol ar draws y cwricwlwm.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith clòs a theyrngar. Maent yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau'n llwyddiannus, sy'n datblygu eu parch at bobl eraill yn ddeallus. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol buddiol, sy'n creu ymwybyddiaeth dda o'u cynefin a gwerthfawrogiad diwylliannol cryf.

Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

- A1 Cysoni'r arferion addysgu effeithiol a darparu adborth buddiol i herio dysgu'r holl ddisgyblion
- A2 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar lefelau dysgu priodol ar draws y cwricwlwm

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r [adroddiad llawn](#).

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2025